# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION - CYFARFOD CHWEFROR

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 9fed o Chwefror 2021** |
| **AMSER** | **7 y.h. – Cyfarfod misol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **Cyfarfod Rhithiol drwy Teams** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y cadeirydd a'r is- gadeirydd yn gynharach, cadeiriodd GW am y noson.<br>Croesawodd pawb i'r cyfarfod. Yn bresennol heno roedd Gwilym Williams **(GW)**, Griffith Jones **(GJ),** Cyng. Aled Jones **(AJ),** Lisbeth James **(LJ)**, Sianelen Pleming **(SP)**. |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | Sara Williams **(SW)**, Ynyr Ellis **(YE)**, John Owen **(JO),** William Jones **(WJ),** Olwen Roberts **(OR),** Emlyn Hughes **(EH)**. |
| **3.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Dim |
| **4.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Cytunodd GJ dderbyn cyfrifoldeb am orchwylio'r biniau baw ci, bydd yn diweddaru'r Clerc am eu cyflwr fel y bydd angen. |
| **5.** | **COFNODION CYFARFOD IONAWR 2021** |
| | **a) Cyflwyno a mabwysiadu cofnodion mis Ionawr.**<br><br>**LJ - Roedd y Clerc wedi cofnodi nad oedd yr heddwas wedi eu galw i ymwneud a'r gwyn am y gôr yrru at Ffordd Rhosydd. Y Clerc I nodi bod yr Heddlu wedi ei galw.**<br><br>Cynigiodd LJ ac eiliodd GJ gywirdeb gweddill y cofnodion.<br><br>**b) Materion yn codi**<br><br>**I. Biniau Baw Ci**<br>Yn dilyn ail gwyn gan y Clerc adroddodd LJ bod y ddau fin bellach wedi eu gwagio.<br>Gan fod y bin ar Ffordd Capel Isaf wedi gor lenwi cymaint cynigiodd GJ archebu bin mwy i'r safle a symud y bin llai i dop y Nant.<br>Penderfynwyd disgwyl tan fis nesaf cyn trafod y mater ymhellach. |

*Llofnodwyd gan.........................................................................................Dyddiad...............................................*

| | |
|---|---|
| | **II. Cais gan GJ I holi am arwyddion Lôn Rhosydd**<br>Esboniodd y Clerc ei bod wedi cysylltu â swyddog priodol Cyngor Gwynedd I osod y gwyn ac wedi derbyn ymateb ond dim diweddariad.<br>Y Clerc I holi am ddiweddariad<br><br>**III. Arwyddion Lôn Rhosydd**<br>Y Clerc I ofyn i Swyddog yr Adran Priffyrdd am ddiweddariad. |
| **6.** | **GÔR YRRU YN YR ARDAL** |
| | Esboniodd y Clerc ei bod wedi cysylltu â'r Swyddog Gorchwylio Cyflymder Cymunedol gyda'r wybodaeth i ymwneud a'r gwirfoddolwyr i'r cynllyn ond hyd yn hyn heb gael ymateb.<br>Y Clerc I barhau ceisio gwneud trefniadau pellach. |
| **7.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | Dim |
| **8.** | **GWERSYLLA YN Y MAES PARCIO** |
| | Yn ystod y mis roedd SP wedi anfon gwybodaeth i'r Clerc ei bod wedi trefnu i swyddog o Gyngor Gwynedd ymweld ar gwerylwr yn y maes parcio i ofyn iddo ymadael yn syth. Gofynodd i'r Clerc ohurio unrhyw drefniadau pellach gyda'r heddwas i ddanfon llythyr iddo.<br>Adroddodd SP ei bod hefyd wedi sgwrsio gyda Chyfreithiwr Cyngor Gwynedd oedd yn awgrymu os na fydd y mater wedi ei ddatrys yn dilyn yr ymweliad bydd angen danfon llythyr iddo cyn gynted â phosib.<br>Adroddodd ymhellach bydd angen rhif cofrestru a gweithredoedd y tir os bydd y mater yn dod ger bron y Llys. Gan nad yw lleoliad y gweithredoedd gwreiddiol yn amlwg, gofynnodd am ganiatâd yr aelodau iddi wneud trefniadau i dderbyn gweithredoedd newydd os bydd angen.<br>Cytunodd yr aelodau. |
| **9.** | **Y GANOLFAN** |
| | Adroddodd y Clerc ei bod wedi methu a chysylltu â Chyfreithiwr y Cyngor Sir hyd yn hyn er mwyn derbyn y Les i'w llofnodi.<br>Adroddodd SP bod Pwyllgor y Ganolfan wedi penderfynu peidio ag ail agor y Ganolfan tan Ebrill 1af. Ychwanegodd bod gwaith yn cael ei gynnal yn yr ystafell snooker i drin y tamprwydd. Roedd hyn yn bosib ar ôl derbyn £10.000 mewn rhodd yn dilyn y pan demig. Esboniodd bydd angen amser i'r waliau sychu ar ôl y gwaith ei orffen felly ni fydd y Ganolfan yn agor cyn Ebrill os bydd y cyfyngiadau presennol yn ymlacio.<br>Y Clerc i barhau ymdrechion i dderbyn y Les. |

*Llofnodwyd gan.........................................................................................Dyddiad...................................................*

| | |
|---|---|
| **10.** | **MATERION LLEOL** |
| | LJ - Cais gan un o'r trigolion i drafod y posibilrwydd o gael llwybr troed ar hyd y ffordd o'r Hen Eglwys i gyfeiriad Llanaelhaearn hyd at Lon Rhosydd.<br>Trafodwyd costau i dderbyn llwybr o'r fath. Adroddodd yr Aelod Lleol bydd posib gwneud cais am Grant Llwybrau Diogel gan y Llywodraeth, gwirfoddolodd gysylltu ag Swyddog y Cyngor Sir am wybodaeth bellach.<br><br>SP - Cais am ganiatâd y Cyngor gan un o drigolion y pentref i osod barrel i'w blannu gyda blodau'r ochor arall i'r siop ar y groesffordd. Croesawodd yr aelodau'r cais a cytunwyd rhoi caniatâd. |
| **11.** | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |
| | **a) Cais am rodd gan Elusen Hafod Ceiri**<br>Y wybodaeth wedi ei rannu gyda'r aelodau o flaen llaw.<br>Gofynnodd GW os oedd posib gohirio penderfynu ar roddion eleni gan nid yw holl aelodau'r Cyngor yn bresennol mewn cyfarfodydd rhithiol. Trafodwyd posibilrwydd am leoliadau eraill os bydd y cyfyngiadau presnnol yn ymlacio. Y Clerc I gadarnhau trefniadau gyda'r aelodau cyn cyfarfod fis Mawrth.<br><br>**b) Neges gan Rhys Jones – Torri gwair y Fynwent**<br>Y Clerc i drefnu derbyn tendrau i gynnal y gwaith.<br><br>**c) Cyfrifon 20/21 – Llywodraeth Cymru**<br>Y wybodaeth wedi ei rannu gyda'r aelodau o flaen llaw. Ni dderbyniwyd sylwadau.<br><br>**d) Cofrestrfa Tir EM – Arolwg o Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru**<br>Y wybodaeth wedi ei rannu gyda'r aelodau o flaen llaw. Ni dderbyniwyd sylwadau.<br><br>**e) Y Farchnad dai gwyliau - Cais am gefnogaeth gan Gyngor Tref Nefyn**<br>Y Clerc wedi derbyn cefnogaeth yr aelodau'n gynharach.<br>Gofynnodd SP os oes angen llythyru a Chyngor Gwynedd gan nad yw'r dreth yn 100%<br>Adroddodd yr Aelod Lleol bod ymgynghoriad byw i bawb datgan eu barn.<br><br>**f) Cais am gymorth gan Glwb Ffermwyr Ifanc Porthdinllaen a Ffermwyr Ifanc Eryri**<br>Gweler pwynt 11(a)<br><br>**g) Gwybodaeth gan Adran Cyllid Cyngor Gwynedd am Praesept 2021/22**<br>Yr aelodau i annog y trigolion i ddatgan eu barn mewn ymgynghoriad y Cyngor Sir |
| **12.** | **CYLLID** |
| | **a) Cyfrifon 2020/21**<br>Gan nad oedd y Clerc wedi derbyn y Fantolen Banc hyd yn hyn (bosib oherwydd salwch Covid yn y Swyddfa Bost) nid oedd modd paratoi'r Cysoniad a Rhagamcanion am y mis. |

*Llofnodwyd gan..........................................................................................Dyddiad.................................................*

| | |
|---|---|
| | **b) Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod**<br>£160 Cyflog Clerc<br>£14.00 Treuliau Clerc |
| **13.** | **TREFNIADAU A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF** |
| | **Gan ei bod yn hanfodol bwysig i'r aelodau oll fod yn bresennol i drafod ceisiadau am roddion penderfynwyd gadarnhau trefniadau yn ystod y mis.** |

*Llofnodwyd gan.......................................................................................Dyddiad.................................................*